LC1492

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") drwy ddiweddaru’r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth y Gymuned, diffinio’r rhestr o ymrwymiadau amaeth-amgylchedd i gynnwys pob ymrwymiad perthnasol a dynodi’r Ysgrifennydd Gwladol fel yr awdurdod rheolaethu cymwys. Maent hefyd yn diwygio Rheoliadau 2004 drwy ychwanegu at bwerau arolygwyr er mwyn darparu ar gyfer arolygiadau mewn perthynas â gofynion lles anifeiliaid ac yn diwygio’r darpariaethau ynghylch rheoli tir ar ôl cynhaeaf.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7. Yn nhestun Saesneg rheoliad 3(c) a (d) a thestun Cymraeg rheoliad 3(c) ac (ch) nid yw’r cyfeiriadau at Reoliadau’r Comisiwn yn gyflawn. Mae’r mân wallau drafftio hyn yn addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Gwnaed y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog ond mae’r testun sydd i’w fewnosod yn Rheoliadau 2004 yn Saesneg yn unig. Y rheswm dros hyn yw y gwnaed Rheoliadau 2004 yn Saesneg yn unig.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**13 Mawrth 2007**